

Archwiliad Arbed ac Ailddefnyddio

Gall llawer o'r pethau rydym ni'n eu defnyddio bob dydd achosi problemau i'n planed a'n hamgylchedd. Mae'r papur rydym ni'n ei ddefnyddio yn dod o goed sy'n cael eu torri i lawr; mae'r plastig rydym ni'n ei ddefnyddio wedi'i wneud o olew sydd wedi dod o'r ddaear; ac mae ein dillad yn aml yn cael eu gwneud gyda llawer o gemegau sy'n achosi niwed i afonydd.

Y ffordd orau y gallwn ni helpu yw **LLEIHAU** nifer y pethau newydd rydym ni'n eu defnyddio ac ailddefnyddio cymaint ag y gallwn, cyn iddo gael ei anfon i'w ailgylchu neu ei daflu yn y bin.



Darganfyddwch faint sy'n cael ei arbed a'i ailddefnyddio trwy chwilio am atebion i'r cwestiynau isod.

Ydy papur bob amser yn cael ei ddefnyddio ar y ddwy ochr cyn cael ei ailgylchu? (gwiriwch yn eich bin ailgylchu)	YDY 😊	NAC YDY ☹️
Ydych chi'n arllwys eich llaeth i gwpanau o boteli mawr i'w yfed?	YDYM 😊	NAC YDYM ☹️
Ydych chi'r plant yn bwyta eich holl fyrbryd neu ginio fel nad yw bwyd yn cael ei wastraffu?	YDYM 😊	NAC YDYM ☹️
Oes gennych chi le i gyfnewid llyfrau, teganau neu ddillad fel y gellir eu hail-garu?	OES 😊	NAC OES ☹️
Allwch chi ddod o hyd i'r geiriau '100% wedi'u hailgylchu' ar eich papur, rholiau toiled neu unrhyw beth arall?	GALLWN 😊	NA ☹️
Oes gennych chi gompost neu abwydfa ar gyfer croen ffrwythau a llysiau dros ben?	OES 😊	NAC OES ☹️
Ydy'r pethau cywir yn eich biniau ailgylchu bob amser?	YDY 😊	NAC YDY ☹️
Ydych chi'n ailddefnyddio pethau fel bocsys grawnfwyd, potiau iogwrt a hen ddillad i wneud celf a chrefft gyda nhw?	YDYM 😊	NAC YDYM ☹️



Os oes gennych chi unrhyw atebion gyda wynebau trist, meddyliwch am, beth allech chi ei newid yn eich lleoliad i'w gwneud yn wynebau hapus?

Beth ydym ni am ei newid?	Sut fyddwn ni'n ei newid?	Pa wahaniaeth wnaethom ni ar ôl i ni wneud y newid?